| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **11 Medi 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** |
| **Teitl:** | **Strategaeth a Pherfformiad Strydwedd, mewn perthynas â Blaenoriaeth Strydoedd Glân y Cyngor** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Effeithiolrwydd y strategaethau a ddefnyddir gan y gwasanaeth Strydwedd i gyflawni Blaenoriaeth Strydoedd Glân y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau wedi gofyn i'r gwasanaeth Strydwedd ddarparu diweddariad ar y gwaith o gyflawni ei swyddogaeth Parth Cyhoeddus. Yn benodol, mae'r pwyllgor wedi gofyn a yw'r gwasanaeth strydwedd yn ymwybodol o unrhyw rwystr a allai atal darparu uchelgais y Cyngor mewn perthynas â'i flaenoriaeth gorfforaethol i ddarparu Strydoedd Glân a Thaclus.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

a) Parhau gyda'r strategaethau presennol cyn belled ag y bo'n ymarferol, gan gynnwys cael gwared ar hysbysebion sy'n cael eu gosod heb ganiatâd yn y parth cyhoeddus,

b) amsugno unrhyw doriad ariannol yn y dyfodol mewn modd a fydd yn lleihau'r effaith negyddol gyffredinol ar ganfyddiad y cyhoedd o'r parth cyhoeddus.

## 4. Manylion am yr adroddiad

### a) Cefndir

<u>Strategaeth Gyffredinol y Parth Cyhoeddus</u>
Mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Parth Cyhoeddus yn 2013. Mae cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar (o leiaf) pedair adran wahanol. Mae'n cynnwys; hygyrchedd y parth cyhoeddus, strydoedd glân a thaclus, cynnal hunaniaeth leol a darparu amgylchedd diogel.

<u>Blaenoriaeth Strydoedd Glân a Thaclus:</u>
Ar gyfer yr adroddiad hwn, gofynnwyd i mi ganolbwyntio'n benodol ar yr elfen Strydoedd Glân a Thaclus sy'n cynnwys; taflu sbwriel, tipio anghyfreithlon, cael gwared ar bosteri anghyfreithlon/graffiti, delio â cherbydau wedi eu gadael/troliau siopa ac ati, baw cŵn, a safleoedd hyll. Unwaith eto, mae nifer o wahanol Benaethiaid Gwasanaeth rhan o'r agweddau hyn.

Rôl Strydwedd mewn perthynas â Strydoedd Glân a Thaclus:
Mae'r Gwasanaethau Amgylcheddol (strydwedd) yn gyfrifol am;
i) yr holl ymchwiliadau tipio anghyfreithlon / erlyniadau a chael gwared ar nwyddau wedi eu tipio'n anghyfreithlon.
ii) pob gweithgaredd glanhau stryd, gan gynnwys cael gwared ar arwyddion wedi eu gosod heb a chlirio baw ci.
iii) rydym hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda'n cydweithwyr yn yr adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas â'r agweddau atal a gorfodi. Felly mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth o'r ddau faes gwasanaeth (gweler Atodiad Pedwar).

**b) Gwybodaeth fanwl am berfformiad gwasanaethau:**

Tipio Anghyfreithlon

Mae'r ffigurau diweddaraf a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru (ar gyfer y flwyddyn 2013-14) yn dangos bod 94.9% o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon a adroddwyd wedi eu clirio o fewn 5 diwrnod. Roedd hyn yn welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn disgwyl gwelliant arall y flwyddyn nesaf, yn rhannol oherwydd bod ein dull o gadw cofnodion cywir wedi gwella (dyddiadau clirio yn arbennig).

O ran niferoedd cyffredinol y digwyddiadau, mae Sir Ddinbych yn fwriadol yn cofnodi pob digwyddiad cofnodadwy, p'un ai yw ar dir cyhoeddus neu breifat neu'n cael ei adrodd gan aelod o'r cyhoedd. Nid yw pob Cyngor yn gwneud hyn. Rydym yn gwneud hyn oherwydd bod cofnodi'r digwyddiadau yn ennyn ein proses ymchwilio mewnol. Rydym yn ystyried cyfraddau adrodd uchel fel rhagofyniad ar gyfer lleihau gweithgarwch tipio anghyfreithlon gwirioneddol (ar y ddaear). O ganlyniad, mae ein cyfraddau adrodd yn uwch na chynghorau tebyg. Fodd bynnag, mae hyn yn ein galluogi i gymryd camau gorfodi yn fwy effeithiol.

Mae dros 50% o'r camau gorfodi yng ngogledd Cymru yn cael eu cymryd gan Sir Ddinbych, er mai dim ond oddeutu 14% o boblogaeth y gogledd sy'n byw yma. Rydym ni'n gallu cynnal y lefel uchel yma o weithgarwch gorfodi oherwydd ein bod wedi casglu'r data angenrheidiol yn drylwyr.

Glendid Strydoedd (cyffredinol)

Ceir dau brif fesurydd perfformiad; a) canlyniadau arolwg preswylwyr a b) canlyniadau mynegai strydoedd glân Cadwch Gymru'n Daclus.
Roedd y cwestiynau yn arolwg preswylwyr haf 2013 a oedd yn ymwneud â glendid wedi eu llunio'n ofalus i gefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol i ddarparu strydoedd glân. Felly dyma'r tro cyntaf i'r cwestiynau cael eu gofyn. Roedd y rhan fwyaf o'r preswylwyr (73%) yn fodlon neu'n fodlon iawn ar lendid cyffredinol y strydoedd yn eu hardal leol. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad Dau. Lle'r oedd yn rhaid i breswylwyr ddewis beth oedd y broblem fwyaf o ran glendid, yr ateb a gafwyd fwyaf aml oedd baw ci.

Mae Atodiad Un yn rhoi data ar dueddiadau ceisiadau Rheoli Cyswllt Cwsmer ar gyfer glanhau strydoedd a gweithgarwch baw ci. Mae Atodiad Tri yn crynhoi canlyniadau Adroddiadau Trefn Archwilio a Rheoli Amgylcheddol Leol (TARhAL) Cadwch Gymru'n Daclus (annibynnol).

Yn eu hadroddiad blynyddol cryno yn 2014 nododd Cadwch Gymru'n Daclus bod pob math o sbwriel wedi gweld gwelliant ers y llynedd a bod cwynion am faw cŵn wedi gostwng o oddeutu 25% (dros flwyddyn). Felly mae strategaethau'r Cyngor i'w gweld yn gweithio.

Strategaeth Atal Baw Cŵn
Mae gan y Cyngor gynllun gweithredu i fynd i'r afael â baw cŵn. Mae'r cynllun yn cynnwys ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, camau gorfodi a rhoi sylw brys i geisiadau am lanhau.

Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd trwy Reoli Cyswllt Cwsmer wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl pob ymgyrch gyhoeddusrwydd, felly mae'r ffigurau yn Atodiad Un yn eithaf cyfnewidiol. Yn anffodus, gall y cyfryngau bortreadu ein cyfradd adrodd uchel mewn ffordd negyddol (fel y maent wedi portreadu ein ffigurau tipio anghyfreithlon). Fodd bynnag, mae'r un egwyddor yn berthnasol; h.y. er mwyn gostwng lefelau (gwirioneddol) o gŵn yn baeddu (ar y ddaear), mae arnom ni angen mynd ati i annog mwy o bobl i roi gwybod i ni am faterion o'r fath.

Data Safleoedd Hyll
Mae Atodiad Pump yn rhestru 20 o brif "safleoedd hyll" y Cyngor. Ym mhob un o'r safleoedd hyn, mae adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor yn mynd ar ôl perchnogion a/neu'n defnyddio'u pwerau statudol i ddileu/mynd i'r afael â'r materion hyll.

Tynnu deunydd hysbysebu/arwyddion heb ganiatâd
Mae problem barhaus yn ymwneud â gormod o arwyddion heb ganiatâd (h.y. anghyfreithlon) yn hysbysebu busnesau/digwyddiadau masnachol ar draws y sir. Mae ar y Cyngor eisiau i fusnesau Sir Ddinbych ffynnu. Fodd bynnag, mae gormod o arwyddion masnachol a baneri ar y briffordd (sy'n aml yn sownd wrth ddodrefn stryd) yn arwain at strydoedd blêr ac annibendod gweledol, ac mae hefyd yn effeithio ar ddiogelwch y briffordd.

Felly yn 2013 ymgynghorodd aelodau ar y mater ac roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y rheolau syml canlynol, sydd bellach yn cael eu dilyn:

i) bydd arwyddion/baneri sy'n cael effaith niweidiol ar ddiogelwch y ffyrdd yn cael eu tynnu oddi ar y briffordd ar unwaith

ii) bydd yr holl hysbysebion masnachol heb ganiatâd hefyd yn cael eu tynnu oddi ar y briffordd. Lle y bo'n ymarferol, ac os yw'n "drosedd gyntaf", byddwn yn rhoi 24 awr o rybudd cyn eu tynnu.

iii) efallai y bydd arwyddion a leolir mewn man diogel ar gyfer digwyddiadau anfasnachol yn cael eu caniatáu/goddef. Fodd bynnag, bydd hyn yn ôl disgresiwn y swyddog strydwedd/priffyrdd priodol. Mae'r eithriad yma ar gyfer digwyddiadau cymunedol/elusennol ac ati sydd â dyddiadau penodol.

Yn ogystal â hyn, mae'r adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd hefyd yn cymryd camau gorfodi priodol yn erbyn gosod arwyddion ar dir preifat heb ganiatâd.

**c) Camau Gweithredu / Strategaethau i'r Dyfodol**

Tipio Anghyfreithlon: Parhau i ymchwilio ac erlyn, lle bynnag y bo gennym ni ddigon o dystiolaeth i wneud hynny. Nid "casglu beth bynnag sy'n cael ei adael allan".

Glendid Strydoedd (cyffredinol): Parhau i symud oddi wrth amserlennu anhyblyg ar gyfer glanhau. Mae hyn yn ein galluogi i wella ein heffeithiolrwydd drwy ganiatáu i staff weithredu ar eu liwt eu hunain. Mae hyn wedi helpu i feithrin mwy o ymdeimlad o berchnogaeth ar y strydoedd.

Deunydd hysbysebu/arwyddion heb ganiatâd: Rydym ni wedi ceisio rhoi pen ar hyn yn ddiweddar a bu i rai busnesau gwyno am orfodi eithafol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn bwriadu parhau i wneud hyn ac yn croesawu cefnogaeth yr aelodau i'r safiad cadarn sy'n cael ei gymryd.

Atal Baw Cŵn: Mae lle o hyd i wella ar amseroedd ymateb. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ni ddigon o ddata i wirio amseroedd yn gywir. Ar gyfer ein gweithgareddau strydwedd, mae arnom ni angen system Rheoli Cyswllt Cwsmer sy'n seiliedig ar ardaloedd (yn hytrach na system sy'n seiliedig ar berson). Mae achos busnes ar gyfer y math hwn o system yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ar y cyd â'n cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cwsmeriaid. Yn y dyfodol, bydd pobl yn mewngofnodi i'r wefan, yn clicio ar leoliad penodol ac yn nodi'r broblem. Bydd yr wybodaeth yn mynd yn uniongyrchol at staff rheng flaen trwy declynnau cledr llaw. Pan fyddant yn datrys y broblem, byddant yn clicio ar y botwm priodol a bydd y system yn newid y cofnod cyfrifiadurol. Nid oes amserlen gadarn ar gyfer hyn ar hyn o bryd. Gall hyn fod ymhen 18 mis.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r strategaeth bresennol yn helpu i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol i ddarparu Strydoedd Glân.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r costau yn cael eu cyfyngu gan gyllidebau gwasanaethau.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb?**

Mae'r asesiad gwreiddiol yn cynnwys ymrwymiad i wella mynediad at y parth cyhoeddus. Nid yw'r asesiad wedi ei ailystyried ar gyfer yr adroddiad diweddaru hwn.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd ag aelodau ynglŷn â'r strategaeth a chymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio Cymunedau y cynllun ym mis Medi 2013. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymgynghori â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, y sector gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd unrhyw gost ychwanegol yn sgil gweithredu'r Strategaeth yn cael ei gwrdd yn defnyddio'r adnoddau presennol (darparwyd datganiad pan gymeradwywyd y strategaeth wreiddiol).

**10. Pa risgiau sy'n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Yn amlwg, mi fydd yna doriadau cyllidebol sylweddol y flwyddyn nesaf. Os oes toriadau mawr mewn cyllidebau glanhau strydoedd, bydd yn rhaid cael gostyngiad cyfatebol yn lefelau'r disgwyliadau o ran yr hyn y gellir ei gyflawni. Fodd bynnag, bydd yr athroniaeth a fydd yn cael ei fabwysiadu gan y gwasanaeth yn aros yr un fath, h.y. i wneud ein sir mor ddeniadol a dymunol ag y gallwn, ac i'w chadw mor dwt a thaclus â phosibl, o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, fel pwerau cyffredinol, yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau fel y rhain, ac mae erthygl 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau craffu mewn perthynas ag archwilio perfformiad y Cyngor o ran cyflawni amcanion ei bolisïau ac ati.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol 01824 706801